**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mehefin 2014**

**PROSIECT Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am sefyllfa gyfredol prosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## Cefndir

2 Drwy gydol 2013, cafodd yr Aelodau ddiweddariadau gan y Prif Swyddog Tân ynghylch yr hyn sydd wedi dod i gael ei adnabod fel Prosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17 Mawrth 2014, cafodd yr Aelodau gopi o adroddiad y prosiect dan amodau Rhan 2. Mae copi o'r adroddiad ar gael yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

## Gwybodaeth

3 Fel y gwelir yn y crynodeb ar dudalen 2 o'r adroddiad, "*bu'r prosiect yn edrych ar y darlun presennol o ran gweithgarwch yr ATAau, cyllid, gweithlu, ystadau, llywodraethu, craffu, sicrwydd, rheoli perfformiad, ystadegau, cydweithio ac ymgysylltu*". Un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar secondiad tymor byr a gynhaliodd y prosiect, er mai swyddogion yn y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a ddarparodd y rhan fwyaf o'r data a ddefnyddiwyd. Bu'r tri Prif Swyddog Tân yng Nghymru yn sefyll ar fwrdd prosiect i oruchwylio'r cam casglu data, ond ni fuont yn rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r data nac yn y casgliadau y daethpwyd iddynt ar ôl eu dadansoddi; ni chawsant ychwaith gopi drafft o'r adroddiad i roi sylwadau arno cyn iddo gael ei ryddhau.

4 Roedd y materion esgeulus hyn yn destun pryder i'r tri Prif Swyddog Tân, a mynegwyd y pryderon hynny i swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pryd.

5 Yr un mor bwysig, o ystyried natur yr argymhellion, ni wnaed unrhyw ymdrech gan swyddog y prosiect i gyfweld ag unrhyw aelod o'r Awdurdod, ac ni fynychodd yr un o gyfarfodydd nac is-gyfarfodydd Awdurdodau Tân ac Achub y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin, na'r De.

6 Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Prif Swyddog Tân wedi bod yn bryderus am y Prosiect ers y dyddiau cynnar. Ni leddfwyd y pryderon hynny fawr ddim gan yr adroddiad. Ym marn y Prif Swyddog Tân, mae'r adroddiad yn brin o sylwedd, yn peri anhawster o ran y cysylltiad rhwng y casgliadau a'r dystiolaeth, a'r peth sy'n peri'r gofid mwyaf yw ei fod yn dod i gasgliadau pellgyrhaeddol yn argymhellion 10-12 ynglŷn â dyfodol yr Awdurdod, a hynny heb gael unrhyw gyswllt ystyrlon gyda'r Awdurdod.

7 Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi bod yn glir mewn atebion i'r cyfarfod llawn, gohebiaeth ac mewn cyfarfod y bu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân ynddo ar 19 Mai 2014 ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen i weithredu'r argymhellion. A hynny er bod y Cadeirydd wedi mynegi pryderon yr Awdurdod mewn llythyr dyddiedig 10 Chwefror 2014 (sydd ar gael yn Atodiad 2, ac ymateb y Gweinidog yn Atodiad 3). Yn y cyfarfod ar 19 Mai, dywedodd y byddai argymhellion 10-12 yn cael eu symud ymlaen yng nghyd-destun ymateb cyffredinol Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. At hynny, dywedodd y Gweinidog na fyddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi felly ni fyddai unrhyw gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid.

8 Yn y cyfarfod ar 19 Mai, dywedodd Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wrth y Gweinidog eu bod yn dal yn bryderus, ac y byddent felly yn ceisio arweiniad gan eu Hawdurdodau eu hunain cyn cysegru rhagor o adnoddau i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu adroddiad yr oeddent yn ei ystyried yn un diffygiol iawn, ynghyd â'r posibilrwydd o dreulio llawer o amser yn llywodraethu'r gwaith hwnnw.

9 Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno ystyried rôl y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, sydd wedi hen sefydlu tasgluoedd sy'n ymwneud â datblygu ymatebion polisi i rai o'r materion sydd yn yr adroddiad. O ystyried y pwysau ar yr adnoddau'n y tri ATA, byddai dyblygu ymdrechion ar hyn o bryd yn cael effaith fawr.

**Argymhellion**

10 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi cynnwys adroddiad Prosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub;

(ii) ystyried ymateb yr Awdurdod i'r adroddiad, pa mor ddymunol fyddai i swyddogion gyfrannu at ei weithredu, a'r effaith ar y Gwasanaeth petai'n cysegru llawer o adnoddau iddo.

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **North Wales Fire and Rescue Authority**

Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub
**Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JJ
Ffôn: 01745 535250
www.gwas-tan@gogcymru.org.uk

Chair of the Fire and Rescue Authority
**Fire and Rescue Service Headquarters**
Ffordd Salesbury, St Asaph Business Park
St Asaph, Denbighshire LL17 0JJ
Telephone: 01745 535250
www.nwales-fireservice.org.uk

10 Chwefror 2014

Lesley Griffiths AC
Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Weinidog

**Adroddiad ar Brosiect y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru 2013**

Diolch am y cyfle i fynegi barn ar adroddiad Prosiect y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru 2013. Fel y soniais yn ein cyfarfod ar y 27ain Ionawr 2014, rwyf yn pryderu'n arw am y modd y cafodd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad ei ddadansoddi, rhai o'r casgliadau a dynnwyd o'r dadansoddiad, ac, o ganlyniad, rhai o'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

Cytunaf fod yr awdur wedi casglu cryn dipyn o wybodaeth a thystiolaeth a oedd wedi cael ei ddarparu a'i wirio gan swyddogion o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae modd i'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ystyried yr anghymhellion canlyniadol o 1-9, ac y mae rhai eisoes wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor.

Cyn i mi symud ymlaen i ganolbwyntio ar argymhellion rhif 10-12 hoffwn herio'r proffiliau ariannu yn yr adroddiad sydd ddim yn edrych ymhellach na 2012/13. Pe byddai'r ffigurau hyn wedi eu hymestyn hyd ddiwedd 2013/14, sef diwedd cyfnod o dair blynedd lle cafodd y gyllideb ei rhewi gan yr Awdurdod, yna fe ellid pwysleisio'r ffaith bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi lleihau ei gyllideb 7.5% dros y tair blynedd ddiwethaf a hynny heb ddiswyddiadau gorfodol. Yr wyf hefyd o'r farn bod defnyddio'r gymhariaeth 'cost y pen' yn ddiffygiol yn ei hanfod mewn gwlad sydd mor brin ei phoblogaeth â Chymru. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod costau ychwanegol yn dod yn sgîl gwlad sydd o natur wledig yn bennaf.

parhad ...

Mae argymhellion rhif 10-12 ymhlith rhai o'r argymhellion mwyaf dadleuol oherwydd yr effaith sylweddol posibl ar drefniadau llywodraethu ac ariannu'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'n rhyfeddol bod yr awdur wedi dod i'r casgliad nad ydy'r trefniadau llywodraethu ac ariannu presennol yn gweithio'n effeithiol a hynny heb geisio barn yr Awdurdodau Tân. Mae'n ymddangos fel bod unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd, drwy gyfrwng papurau cyhoeddus yr ATA a oedd yn nodi'r opsiynau a gynigwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan yr ATA mewn perthynas â chynnydd a thoriadau yn y gyllideb, wedi cael eu hanwybyddu. Hyd y gwyddaf i, nid yw'r awdur wedi mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio yng Ngogledd Cymru ac ni allaf ddirnad ar sail pa dystiolaeth y daeth hi i'r fath gasgliadau.

Rydym bob amser wedi bod yn agored a thryloyw o safbwynt ein trefniadau ariannu presennol ac y mae papurau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno am ystyriaeth gan y Panel Gweithredol yn rheolaidd. Mae'r argymhellion o ran y pwysau cost a fydd yn cael eu hariannu ac na fydd yn cael eu hariannu yn cael eu cofnodi ac yn ddiweddarach fe gofnodir y camau a gymerwyd i leihau'r gyllideb. Mae'r rhain yn cael eu trafod yn gyhoeddus cyn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn.

Cyn i chi ymgymryd â'r gwaith i gefnogi argymhellion rhif 10-12, hoffwn gael bwrw golwg ar y dystiolaeth a oedd yn sail i'r casgliadau a'r argymhellion hyn, er mwyn i mi gael fy argyhoeddi, neu fel arall, bod yma broblem sydd angen mynd i'r afael â hi.

Edrychaf ymlaen at gael trafod y sylwadau hyn ymhellach gyda chi pan fyddwn yn cwrdd nesaf ac rwyf yn gwerthfawrogi eich cais am eglurhad pellach ynglŷn â'm pryderon.

Yr eiddoch yn gywir

Meirick Lloyd Davies
**Cadeirydd – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Copi i'r Prif Swyddog Tân Simon Smith

Atodiad 3

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref RLL/CR
Ein cyf/Our ref LG/00166/14

Y Cyng. Meirick Lloyd Davies
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

4 Mawrth 2014

Annwyl Meirick

Cyfeiriaf at eich llythyr 10 Chwefror ynghylch yr argymhellion a nodir yn Adroddiad Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2013 (Adroddiad Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru).

Mae Adroddiad Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n cydnabod y gwelliannau y mae Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) wedi'u gwneud yn y 10 mlynedd diwethaf, ac rwyf wedi cyfleu fy marn am y llwyddiant hwn yn fy Natganiad Llafar fis Hydref diwethaf. Mae'n hanfodol ymdrechu'n barhaus i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n dinasyddion. Rwyf yn siomedig nad ydych wedi cydnabod i'r adroddiad a'r argymhellion ynddo gael eu llunio yn yr ysbryd hwn, sef fel ffordd o sicrhau gwelliant y hytrach nag fel ymgais i feirniadu unrhyw gorff penodol.

Rwyf wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r holl argymhellion a nodir yn yr adroddiad, gan eu cysylltu fel y bo'n briodol â gwaith ehangach i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Caiff yr argymhellion eu cyflawni fel cyfres o brosiectau trwy Fwrdd Rhaglen. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi cyn hir ynghylch yr amserlen ar gyfer hyn.

Yn eich llythyr dywedwch nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'n llawn yr arbedion sydd wedi'u gwneud gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am fod data 2013-14 wedi cael ei hepgor. Ni allai'r adroddiad gynnwys ond yr wybodaeth a'r data a oedd ar gael adeg ei lunio. Cydnabyddaf fod yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd. Er hynny, o gofio'r pwysau ariannol yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru, credaf fod mwy i'w wneud a bydd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cefnogi effeithlonrwydd a gwelliant pellach. Byddwn yn parhau i edrych yn ofalus ar broffiliau ariannu'r Awdurdodau Tân ac Achub yn flynyddol ac mae ystyriaethau gwerth am arian [illegible] yn rhan annatod o'r argymhellion yr Adroddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line [illegible]
Llinell Ymholiadau Cymraeg [illegible]
Correspondence.[illegible]@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Rydych yn gwneud y pwynt nad yw'r gost i bob pen o'r boblogaeth yn adlewyrchiad cywir o [illegible] [illegible] [illegible] cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y llythyr hwn yn eu hysgwyddo.

Codwyd pryderon gennych nad yw aelodau wedi cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses ac am y ffaith bod yr awdur heb fynychu cyfarfodydd. Cafodd tystiolaeth ei bwydo i mewn i'r adolygiad o nifer eang o ffynonellau gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. Caf ar ddeall fod Williams wedi casglu tystiolaeth yn uniongyrchol gan yr aelodau ac i'r wybodaeth hon hefyd gael ei bwydo i mewn i Adroddiad Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Cafodd yr adroddiad drafft ei herio gan fy Mhrif Gynghorydd Tân ac Achub. Mae Adroddiad Williams wedi tynnu sylw at faterion tebyg ynghylch llywodraethu a chraffu. Yn hytrach na beirniadu aelodau, prif ddiben yr argymhellion sydd yn yr adroddiad yw dileu cymhlethdod ac unrhyw gyfyngiadau o ran strwythur a systemau a fydd yn llesteirio'r aelodau yn eu rôl graffu. Mae'n werth i mi bwysleisio nad yw'ch safbwyntiau a'ch pryderon ynghylch yr argymhellion ar graffu a llywodraethu yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ledled Cymru.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business